Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Defnyddio’r dull sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau

Canfod gwybodaeth ac adnoddau am sut caiff y dull ei ddefnyddio’n ymarferol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 Ionawr 2020

Diweddariad olaf: 21 Tachwedd 2022

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gwella-gofal-a-chymorth/canlyniadau-personol/defnyddior-dull-syn-canolbwyntio-ar-ganlyniadau am y fersiwn diweddaraf.

Canfod gwybodaeth ac adnoddau am sut caiff y dull ei ddefnyddio’n ymarferol.

Sut i ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau wrth gofnodi achosion

Mae'r adnodd hwn yn edrych ar yr egwyddorion ac yn darparu arweiniad i gefnogi cofnodi achosion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau personol sydd yn seiliedig ar ymchwil, ymgynghori ag ymarferwyr, a thystiolaeth o'r hyn a all weithio. Y brif ffocws yw i gofnodi achosion, ac rydym yn golygu cofnodion o ryngweithio o ddydd i ddydd rhwng ymarferwyr a phobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, mae hyn yn llywio ac yn dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer a gyda phobl.

Mae hefyd yn darparu gwahanol enghreifftiau o recordio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac ymarferion myfyriol. Bydd y rhain yn helpu pobl, timau a sefydliadau i sicrhau bod y recordiad yn gyson ac yn ystyrlon, a fydd yn eu helpu i adeiladu perthnasoedd a dealltwriaeth gyda phobl sy'n defnyddio gofal a chefnogaeth.

> Cyfaill nid gelyn
>
> PDF 940KB

Fideos cyfaill nid gelyn

Fideos i gefnogi pobl sy’n defnyddio gofal a chymorth, ymarferwyr, rheolwyr a chomisiynwyr.

Gwneud cofnodi'n rhywbeth 'byw' a chydgysylltiedig ar draws fudiadau

> View transcript
>
> 00:00 --> 00:02
>
> Ffrind nid Gelyn

00:02 --> 00:06

Cymorth i gofnodi'n ystyrlon ar sail canlyniadau mewn gofal cymdeithasol.

00:06 --> 00:11

Gwneud cofnodi'n rhywbeth 'byw' a chydgysylltiedig ar draws gwahanol fudiadau.

00:12 --> 00:15

Mae'r adnodd hwn yn cynnwys enghreifftiau o sut i ddefnyddio

00:15 --> 00:20

cofnodi o wahanol leoliadau i helpu pobl a thimau i fyfyrio a thrafod.

00:21 --> 00:27

Pwrpas Ffrind nid Gelyn a'r ?deo hwn yw cynorthwyo cofnodi ystyrlon ar sail canlyniadau.

00:28 --> 00:31

Mae'r ?deo yma'n trafod egwyddorion o dan ddwy thema wahanol –

00:31 --> 00:37

gwneud cofnodi'n rhywbeth byw a chydgysylltiedig, ac yn ail sicrhau bod cofnodi'n rhywbeth cynhwysol.

00:38 --> 00:44

Y thema gyntaf yw gwneud cofnodi'n broses 'fyw' a chydgysylltiedig ar draws gwahanol fudiadau.

00:45 --> 00:51

Un egwyddor yw gwneud cofnodi'n broses sy'n ymateb i siwrne person – drwy gofnodi eu stori.

00:51 --> 00:58

Yn yr enghraifft hon, canlyniad personol Rhodri yw cael yr hyder i gerdded yn yr awyr agored unwaith eto

00:58 --> 01:02

a threulio amser gyda ffrindiau ar ôl cael ei frifo'n ddifrifol mewn damwain car.

01:03 --> 01:08

Cofnodir ei stori dros amser gan gynnwys rhai o droeon ei fywyd wrth i'w amgylchiadau newid.

01:09 --> 01:11

Ar ôl teimlo i ddechrau ei fod yn gwella,

01:12 --> 01:15,760

wynebodd Rhodri drafferthion iechyd ac mae'n teimlo'n isel unwaith eto.

01:18 --> 01:22

Ond mae'n teimlo'n well ar ôl gweld f?siotherapydd sy'n ei helpu i deimlo'n ddigon

01:22 --> 01:24

diogel i gamu allan drwy'r drws.

01:25 --> 01:31

Yn stori Rhodri, mae gwahanol bobl gan gynnwys Rhodri wedi cyfrannu i'w ganlyniad.

01:32 --> 01:37

Mae ei siwrne wedi cynnwys anawsterau, sy'n rhan arferol o fywyd pob dydd.

01:39 --> 01:44

Ac felly fe welwn yma sut y mae stori Rhodri a'i ganlyniadau'n cael eu cofnodi ar y ffordd.

01:45 --> 01:50

Y cam nesaf yw cysylltu cofnodi canlyniadau personol gan wahanol fudiadau.

01:51 --> 01:57

Mater o ddeall pa wybodaeth sydd ei hangen gan wahanol fudiadau o'r broses gofnodi yw hyn.

01:58 --> 02:05

Dywedodd un gofalwr maeth wrthym am ffur?en atgyfeirio ar gyfer plentyn a fu'n byw mewn ysgol breswyl am 18 mis.

02:06 --> 02:12

Nid oedd yr un gofalwr maeth yn y wlad am gymryd y bachgen hwn oherwydd cymhlethdod ei broblemau ymddygiad.

02:13 --> 02:17

Roedd yr atgyfeiriad yn darllen fel crynodeb o 'beth sydd orau'.

02:17 --> 02:22

Dywedodd fod y gofalwr maeth ar ?n dweud 'na", nes iddynt weld un o'i luniau.

02:22 --> 02:25

Mae llun gwerth mil o eiriau, dangosodd ei fod eisiau bod yn rhan o deulu,

02:25 --> 02:28

a dywedodd nhw "ie" yn syth.

02:28 --> 02:34

Mae deall beth sydd ei angen ar asiantaethau eraill i ddeall canlyniadau personol rhywun

02:34 --> 02:37

yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr i benderfyniadau a bywydau pobl.

02:40 --> 02:44

Yr ail thema yn y ?deo yw gwneud y cofnodi'n broses gynhwysol.

02:45 --> 02:50

Egwyddor arall yw gwneud y cofnodi'n bersonol i bobl ag anawsterau cyfathrebu.

02:51 --> 02:56

Cofnodwyd y wybodaeth yma gan gartref gofal ar gyfer dyn o'r enw Hugh, sydd â dementia,

02:56 --> 03:00

ar ôl i fab Hugh, Michael, rannu gwybodaeth gyda nhw.

03:01 --> 03:05

Sylwodd y staff fod Hugh yn gallu ymlacio wrth wrando ar Radio 3.

03:05 --> 03:12

Dywedodd Michael wrth y staff fod ei dad wedi bod yn ddyn swil erioed oedd yn gyndyn o 'ymuno' â phobl eraill.

03:13 --> 03:17

Ond pan ddechreuodd y staff chwarae Radio 3 yn lolfa'r preswylwyr,

03:17 --> 03:21

dechreuodd Hugh godi a symud i'r miwsig fel pe bai'n arwain y miwsig ei hun.

03:22 --> 03:27

O ganlyniad, dechreuodd breswylwyr eraill 'uniaethu' â Hugh oherwydd y miwsig,

03:27 --> 03:30

oedd wedi dechrau cael ei chwarae'n rheolaidd.

03:32 --> 03:36

Rydym hefyd eisiau gwneud cofnodi’n rhywbeth personol gydol bywyd.

03:37 --> 03:41

Enghreifftiau ar gyfer plant ac oedolion sydd yn y canllawiau hyn.

03:41 --> 03:47

Mae’n bwysig deall bod ymarfer ar sail canlyniadau personol yn rhywbeth i bawb – o’r crud i’r bedd.

03:48 --> 03:52

Mae rhywun weithiau’n gallu angho?o hyn tuag at ddiwedd bywyd,

03:52 --> 03:56

ond mae digon o gy?e o hyd i ymarfer ar sail canlyniadau.

03:56 --> 04:12

Mae ?deo ar wahân sy’n cynnwys stori am ganlyniadau diwedd bywyd.

Gwneud cofnodi'n rhywbeth personol a hygyrch

View transcript

00:00 --> 00:01

Ffrind nid gelyn

00:01 --> 00:06

Cefnogi cofnodi ystyrlon ar sail canlyniadau mewn gofal cymdeithasol.

00:06 --> 00:09

Gwneud cofnodi’n rhywbeth personol a hygyrch.

00:10 --> 00:16

Mae’r adnodd hwn yn defnyddio enghreifftiau o sut i ddefnyddio cofnodi o wahanol leoliadau

00:16 --> 00:19

i helpu pobl a thimau i fyfyrio a thrafod.

00:19 --> 00:25

Pwrpas Ffrind nid Gelyn a’r ?deo hwn yw helpu i gofnodi’n ystyrlon ar sail canlyniadau.

00:26 --> 00:32

Mae’r ?deo hwn yn trafod egwyddorion Ffrind nid Gelyn ar gyfer gwneud eich cofnodi’n bersonol a hygyrch.

00:33 --> 00:39

Siarad am gofnodi personol y mae Ffrind nid Gelyn, nid canlyniadau safonol neu sefydliadol.

00:41 --> 00:46

Rydym eisiau cofnodi’r pethau sy’n wirioneddol bwysig i’r person, yn eu hiaith eu hunain lle gallwn.

00:47 --> 00:50

Gadewch i ni gymryd enghraifft allan o gynllun cymorth.

00:50 --> 00:54

Mae’r datganiad “Mae angen i Huw gydymffur?o â’i gynllun gofal”

00:54 --> 00:58

yn annhebygol o adlewyrchu’r pethau sy’n bwysig i’r unigolyn.

00:59 --> 01:03

Mae’n fwy tebygol o adlewyrchu nod proffesiynol neu sefydliadol.

01:04 --> 01:08

Gallai canlyniad mwy personol a thebygol ddarllen fel hyn:

01:09 --> 01:13

Mae Huw eisiau aros yn y cartref plant oherwydd mae’n ymddiried yn y staff

01:13 --> 01:16

ac yn hof?’r plant eraill, sydd i gyd yn iau na fo.

01:18 --> 01:23

Mae’n deall y bydd angen iddo roi’r gorau i yfed, fydd yn ei helpu i reoli ei broblemau gwylltio,

01:23 --> 01:25

fel y mae ei gynllun gofal yn ei nodi.

01:26 --> 01:33

Mae hyn yn cysylltu i’r egwyddor y dylai cofnodi fod yn bersonol yn hytrach na bod canlyniadau pawb yr un fath.

01:34 --> 01:37

Mae mwy o enghreifftiau yn yr adnodd ysgrifenedig.

01:38 --> 01:44

Egwyddor arall yn Ffrind nid Gelyn yw cydnabod a chofnodi’r gwahanol fathau o ganlyniadau sy’n bwysig i bobl.

01:45 --> 01:49

Nid mater o newid neu wella popeth yw canlyniadau bob tro.

01:50 --> 01:53

Gall canlyniadau hefyd gynnwys cynnal ansawdd bywyd

01:53 --> 01:57

neu ganlyniadau proses, yn ymwneud â sut y mae pobl yn cael cymorth.

01:59 --> 02:03

Gallech feddwl am ganlyniad sy'n ymwneud â chynnal ansawdd bywyd.

02:04 --> 02:07

Neu feddwl am ganlyniad proses, fel yn yr enghraifft ganlynol:

02:08 --> 02:13

"Mae fy ngweithiwr cymorth yn gwneud i mi deimlo'n dda amdanaf fy hun, fy mod yn gallu gwneud pethau."

02:14 --> 02:20

Gall yr enghreifftiau byr hyn ddweud llawer wrthym am y pethau sy'n bwysig a sut y mae pobl eisiau cael eu cefnogi.

02:21 --> 02:29

Ar yr un thema o wneud y cofnodi'n bersonol a hygyrch, egwyddor arall yw pwysleisio cryfderau pobl ond gan adnabod y prif risgiau.

02:31 --> 02:35

Gyda hwn, gallwn weld rhan o gynllun ffocws teulu mwy yn Ffrind nid Gelyn.

02:36 --> 02:38

Mae'r cynllun yn cynnwys risgiau a chryfderau.

02:39 --> 02:46

Un enghraifft o risg yn y cynllun yw “Yn yr ysgol, mae Aled fel arfer yn dda iawn. Ond pan fydd yn gwylltio,

02:46 --> 02:51

gall ei ymddygiad arwain at yr ysgol yn ffonio ei fam a gofyn iddi ddod i’w nôl.”

02:52 --> 02:58

Un enghraifft o gryfder yw “Mae Aled yn ddarllenwr ardderchog ac wedi darllen rhai llyfrau gwych.

02:58 --> 03:01

Mae eisiau dal ati i ddarllen llyfrau da.”

03:02 --> 03:08

Mae’r ffaith bod cryfderau Aled wedi eu cofnodi’n ein helpu i wybod beth yw ei alluoedd a sut orau i’w gefnogi.

03:10 --> 03:16

Gan barhau’r thema o gadw’r cofnodi’n bersonol a hygyrch, rydym hefyd eisiau gwneud y cofnodi’n glir a chryno.

03:17 --> 03:23

Weithiau gall llai o eiriau ddweud mwy, yn enwedig pan gânt eu hysgrifennu gan y person ei hun.

03:24 --> 03:31

Gall gor-gofnodi ddigwydd oherwydd gor-boeni y bydd cofnodion yn cael eu craffu am resymau cyfreithiol neu gydymffur?o.

03:31 --> 03:35

Mae’n golygu bod gwybodaeth bwysig yn cael ei cholli.

03:36 --> 03:41

Gall fod yn ddefnyddiol iawn gweithio gyda’ch tîm i helpu eich gilydd i gofnodi’n gryno.

Cofnodi hanesion un: stori Fran

View transcript

00:00 --> 00:03

Cyfaill nid gelyn: Cofnodi hanesion un

00:03 --> 00:08

Cefnogi cofnodi ystyrlon sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau mewn gofal cymdeithasol

00:09 --> 00:11

Cofnodi hanesion un: Stori Fran

00:11 --> 00:13

Roedd yn aur pur, wir i chi.

00:14 --> 00:00:21

Dyma un o ddau ?deo yn adrodd stori bersonol yn ein cyfres i gefnogi’r adnodd ysgrifenedig Cyfaill Nid Gelyn.

00:21 --> 00:26

Cafodd yr adnodd ei greu i gefnogi cofnodi ystyrlon sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau.

00:27 --> 00:30

Dyma stori Fran, “Roedd yn aur pur, wir i chi”.

00:31 --> 00:37

Mae stori Fran yn cefnogi’r egwyddor o gofnodi ystyrlon sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau o’r crud i’r bedd.

00:38 --> 00:45

Mae Fran yn dweud wrthym am gael mynediad at ei gofnodion fel oedolyn wedi cael ei fabwysiadu fel baban.

00:46 --> 00:48

Bu i Fran byth cwrdd â'i rhieni genedigol.

00:49 --> 00:53

Bu'n byw mewn cartref Barnardo's i blant am ?ynyddoedd cyntaf ei fywyd.

00:54 --> 00:57

Mae ganddo atgo?on anodd o'r cyfnod o hyd.

00:58 --> 01:02

Cafodd Fran ei faethu gan gwpl aeth ymlaen i'w fabwysiadu yn 16 oed.

01:03 --> 01:07

Ni edrychodd am ei rieni genedigol am nad oedd eisiau peri go?d i'w deulu newydd.

01:08 --> 01:12

Yn ddiweddarach, gadawodd Fran gartref, priodi, a chael plant ei hun.

01:15 --> 01:18

Yn ei 30au, penderfynodd edrych ar gofnodion ei geni.

01:19 --> 01:22

Felly fe wnaeth apwyntiad gyda Barnardo's i gael gweld ei ffeil.

01:23 --> 01:26

Dywedodd Fran wrthym fod darllen ei ffeil yn bro?ad anhygoel.

01:27 --> 01:30

Roedd tri pheth yn sefyll allan i Fran.

01:30 --> 01:33

Y peth cyntaf oedd bod ei fam enedigol yn gwybod pob manylyn

01:33 --> 01:38

o'r hyn a ddigwyddodd iddo am fod y gweithiwr cymdeithasol wedi cofnodi'r cyfan.

01:38 --> 01:41

Roedd llawer o bethau wedi digwydd iddo.

01:41 --> 01:45

Roedd wedi bod mewn helynt gyda'r heddlu ac un tro wedi cael ei drywanu.

01:45 --> 01:49

Roedd yn golygu llawer i Fran bod ei fam yn gwybod am ei fywyd.

01:50 --> 01:53

Mae Fran yn disgri?o ei hun fel arlunydd eithaf parchus.

01:54 --> 01:56

Mae'n paentio timau Fformiwla Un.

01:57 --> 02:01

Yr ail beth safodd allan i Fran oedd bod ei fam yn arlunydd gwych.

02:01 --> 02:05

Roedd yn llawn cyffro i ddarganfod hynny a theimlo bod cysylltiad rhyngddyn nhw.

02:06 --> 02:13

Y trydydd peth safodd allan i Fran oedd, am y tro cyntaf, gwelodd lun ohono'i hun yn fabi.

02:13 --> 02:17

Roedd yn ei atgoffa o'i fab yn fabi â gwall steil Mohican.

02:18 --> 02:23

Roedd Fran yn ddiolchgar i'r gweithiwr cymdeithasol a gymerodd amser i gofnodi'r wybodaeth.

02:23 --> 02:30

Llanwodd ambell fwlch iddo a dywedodd, "Roedd yn aur pur, wir i chi."

Cofnodi hanesion dau: Helen a'r crëyr

View transcript

00:00 --> 00:01

Cyfaill nid gelyn

00:01 --> 00:03

Cofnodi hanesion dau

00:03 --> 00:08

Cefnogi cofnodi ystyrlon sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau mewn gofal cymdeithasol

00:08 --> 00:11

Cofnodi hanesion dau Helen a'r Crëyr

00:12 --> 00:14

Cofnodi canlyniadau ar ddiwedd bywyd

00:14 --> 00:20

Dyma'r ail o ddau ?deo yn adrodd stori bersonol yn ein cyfres i gefnogi'r adnodd ysgrifenedig

00:20 --> 00:22

Cyfaill nid gelyn.

00:22 --> 00:27

Cafodd yr adnodd ei greu i gefnogi cofnodi ystyrlon sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

00:27 --> 00:31

Dyma stori Helen, "Helen a'r crëyr".

00:31 --> 00:36

Fel stori Fran yn ein ?deo arall, mae stori Helen yn cefnogi'r egwyddor

00:36 --> 00:40

o gofnodi ystyrlon sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o'r crud i'r bedd.

00:41 --> 00:44

Tra bod stori Fran am edrych ar ei gofnodion o'i geni,

00:45 --> 00:48

mae stori Helen am gofnodi canlyniadau ar ddiwedd bywyd.

00:49 --> 00:53

Mae'r mudiad hosbis yn ein dysgu beth sy'n bwysig ar ddiwedd bywyd,

00:54 --> 00:57

fel y mae Cecily Saunders, sylfaenydd y mudiad, yn ei grynhoi:

00:59 --> 01:04

“Rwyt ti’n bwysig oherwydd ti wyt ti, rwyt ti’n bwysig hyd at ddiwedd dy oes.

01:05 --> 01:12

Fe wnawn ni bopeth o fewn ein gallu nid yn unig i’th helpu i farw mewn hedd, ond hefyd i’th helpu i fyw hyd nes y byddi di farw.”

01:13 --> 01:16

Gall obaith dal fod yn rhan o ddiwedd bywyd

01:16 --> 01:19

ac mae pobl yn aml eisiau parhau i wneud pethau i’w hunain

01:20 --> 01:22

a gosod nodau i gynnal ansawdd bywyd.

01:23 --> 01:27

Mae gwrando ar a chofnodi’r hyn y mae pobl eisiau ei gy?awni

01:27 --> 01:30

a’r hyn y byddai’n gwneud bywyd yn ystyrlon mor bwysig ag erioed.

01:31 --> 01:35

Mae Helen, sydd yn ei 70au, wedi bod â chanser ers 3 blynedd.

01:36 --> 01:40

Roedd yn gwybod pan gafodd y diagnosis nad oedd modd ei drin

01:40 --> 01:45

a’i phrif nod yw parhau i fyw gartre mor hir â phosib a chael ei g?r a’i merch o gwmpas.

01:47 --> 01:51

Dyma’r hyn gafodd ei gofnodi am ddymuniadau Helen, gyda chytundeb y teulu

01:51 --> 01:55

a dealltwriaeth ar ran ei chefnogwyr proffesiynol o’u pwysigrwydd.

01:58 --> 02:02

“Er bod ei chanser yn datblygu, mae Helen eisiau parhau i gerdded at yr afon bob diwrnod

02:02 --> 02:06

gyda’i phartner a’i merch Rhian, cyhyd ag y bydd hynny’n bosib.

02:07 --> 02:12

Mae hi bob amser yn chwilio am y crëyr glas – sy’n argoel dda i’w theulu yn ei thyb hi.”

02:13 --> 02:18

Y cefndir i’r hyn sy’n cael ei gofnodi yw bod Helen yn cael cerdded yn fwyfwy blinedig

02:18 --> 02:23

oherwydd ei chanser ac mae’n gwybod na fydd cerdded yn bosib am yn hir eto.

02:23 --> 02:26

Mae mynd am dro at yr afon wedi bod yn bro?ad ystyrlon iddi

02:27 --> 02:31

ac mae ei theulu’n bwriadu mynd â hi at yr afon yn y car pan na all gerdded yno.

02:31 --> 02:36

Maent hefyd wedi fframio llun o’r crëyr i Helen ar gyfer yr adeg pan na all fynd at yr afon.

02:38 --> 02:42

> Mae hyn yn helpu'r teulu i gefnogi Helen a dod i delerau â'i chy?wr.
>
> 02:42 --> 02:47
>
> Dylech feddwl am ganlyniadau i'r aelodau teulu sy'n gofalu am Helen ar ddiwedd ei bywyd.
>
> 02:48 --> 02:54
>
> Gwyddwn fod merch Helen eisiau treulio amser yn agos at ei mam hyd at ddiwedd ei bywyd
>
> 02:54 --> 02:59
>
> a bod rhannu ystyr a gobaith wrth wylio'r crëyr yn gysur iddi hi yn ogystal â'i mam.
>
> 03:01 --> 03:07
>
> Mae cael cofnod i'w rhannu yn helpu pawb i ddeall y blaenoriaethau trwy bob cam o fywyd.
>
> 03:08 --> 03:12
>
> Does dim rhaid iddo fod yn hir i ddweud lot am yr hyn sy'n ystyrlon.

Sut i ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau mewn Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA)

Dyma rai o egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

- pwyslais ar hybu llesiant
- dull ataliol
- mwy o lais a rheolaeth i'r unigolyn
- gweithio ar y cyd ag unigolion a'u teuluoedd a'u ffrindiau.

Mae'r gwasanaeth IAA yn gwneud cyfraniad pwysig i gyflawni'r egwyddorion hyn. Yn benodol, mae'r sgwrs am 'yr hyn sy'n bwysig' yn gosod y sylfeini ar gyfer sefydlu

perthnasoedd positif â phobl ar sail cyd-gynhyrchu.

Bydd sgyrsiau yn y gwasanaethau IAA yn canolbwyntio ar helpu pobl i feddwl am eu hamgylchiadau, gweld eu cryfderau a chryfderau eu teulu a'u cymuned ac ystyried sut gellir hybu llesiant.

Rydym wedi datblygu pecyn hyfforddiant i bobl sy'n gweithio mewn Gwasanaethau IAA i'w helpu i gael sgyrsiau gwell.

> Pecyn adnoddau sgiliau - 'Sgyrsiau am yr hyn sy'n bwysig sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau mewn gwasanaethau gywbodaeth, cyngor a chynorthwy'
>
> DOCX 536KB

> Pecyn adnoddau ar sail sgiliau - Sleidiau PowerPoint
>
> PPTX 1MB

> Pecyn adnoddau i reolwyr - 'sgyrsiau am yr hyn sy'n bwysig', sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau mewn gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy
>
> DOCX 849KB

> Pecyn adnoddau i reolwyr - Sleidiau PowerPoint
>
> PPTX 413KB

Defnyddio dull canlyniadau mewn gwasanaethau gofal cartref

Yma gallwch ddod o hyd i adnoddau hyfforddi i helpu rheolwyr a gweithwyr gofal cartref gymryd agwedd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau tuag at eu hymarfer.

Adnoddau ar gyfer rheolwyr

Mae'r adnodd yma'n dod â gwybodaeth, syniadau ac offer ymarferol at ei gilydd ar gyfer rheolwyr gofal cartref a phobl sy'n arwain ac yn dylanwadu ar ymarfer.

Mae'n edrych ar bynciau y mae angen i reolwyr fod yn ymwybodol ohonynt fel newid diwylliant a sgyrsiau gyda phartneriaid, gan gynnwys comisiynwyr ac arolygwyr. Mae hefyd yn cynnwys ffyrdd i gefnogi timau staff trwy recriwtio, goruchwylio, dysgu ac adlewyrchu.

> Deall a defnyddio dull canlyniadau: Siop-un-stop i bobl sy'n arwain ac yn dylanwadu ar ymarfer mewn gofal cartref
>
> PDF 651KB

Adnoddau ar gyfer gweithwyr

Gallwch ddefnyddio'r adnoddau hyn mewn unrhyw drefn a gallent fod yn ddefnyddiol ar gyfer:

- goruchwyliaeth
- cyfarfodydd tîm
- hyfforddiant
- cymorth cymheiriaid.

Gellir defnyddio'r adnodd hefyd i gefnogi staff sy'n cwblhau'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (AWIF). Rydyn ni wedi nodi lle maen nhw'n cyd-fynd â'r AWIF yn y canllaw.

> Adnodd dysgu gofal cartref: trosolwg bras
>
> PDF 258KB

> Hyfforddiant ar ofal cartref - canllawiau llawn
>
> PDF 324KB

> Darparu canlyniadau – Pennod 1.1 – Deall canlyniadau
>
> PPTX 471KB

> Darparu canlyniadau - Pennod 1.2 – Cofnodi a monitro canlyniadau
>
> PPTX 479KB

Darparu canlyniadau - Pennod 1.3 – Cysylltu a'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol

PPTX 690KB

Cynnal sgyrsiau da – Pennod 2 – Sgwrs am yr hyn sy'n bwysig

PPTX 507KB

Risg cadarnhaol a Gwneud Penderfyniadau ar y Cyd - Pennod 3 – Cadw cydbwysedd rhwng risg, hawliau a chyfrifoldebau

PPTX 511KB

Straeon personol am gadw cydbwysedd rhwng hawliau, risg a chyfrifoldebau

PDF 136KB

View transcript

Fy enw fi yw Mr David Stanbury Britton a dyma fy stori.

Flynyddoedd maith yn ôl, bues i'n gynghorydd lleol. Gwnes i hynny am dros bedwar deg o flynyddoedd. Mae pobl yn edrych arna' i nawr a gweld dim ond hyn (mae Mr Britton yn amneidio tuag at ei ddwylo tyn) – ond mae llawer mwy i fi na hynny.

Roedd hi'n drychinebus dysgu bod Clefyd Parkinson arnaf. Roedd hi'n anoddach fyth pryd cafodd fy mab ddiagnosis hefyd. Dyw bywyd ddim yn deg weithiau. Rhaid i chi wneud y gorau ohono. Pryd bu farw'r wraig, o'n i ar fy mhen fy hunan. Roedd salwch fy mab yn waeth na fy un fi, ac o'n i yn y tywyllwch. Cassie oedd llygaid fy ngwraig. Mae'r gath fach 'na'n arwydd o obaith; mae hi'n fwy nac anifail.

Ar ôl iddi farw, triodd pobl fy helpu – ond dywedon nhw o hyd, "David, rhaid i chi feddwl o'ch iechyd a chael gwared ar y gath 'na". Ond beth oedden nhw'n methu deall oedd nad yw Cassie'n anifail; hon yw fy unig ffrind. Hon sy'n fy atgoffa fi o fy ngwraig bob dydd. O'n i eisiau gwneud ffrindiau newydd a gwneud mwy o bethau ond doedd dim modd i fi symud allan o'r byngalo 'na os nad oedd Cassie'n cael dod hefyd. Doedd neb yn deall hynny. O'n i mewn ac allan o'r ysbyty drwy'r amser, ac o'n i'n poeni pwy fyddai'n gofalu am Cassie pryd nad o'n i yno. Roedd y gofid wedi gwneud i fi'n fwy sâl

fyth, ac doedd neb yn deall pam nad o'n i eisiau triniaeth. Y gwir yw – 'na gyd o'n i eisiau oedd bod gyda fy nghath. Ond pam fod hynny mor anodd?

"Rhaid i chi fynd i'r ysbyty, David."

"Mae'r hen gath ddiawl 'na'n creu llanast ymhob man. Pam eich bod chi ddim yn cael cartref newydd iddi?"

"David, fe fyddwch chi llawer mwy diogel mewn cartref gofal. Oni fyddech chi'n teimlo'n well gyda mwy o bobl o gwmpas?"

Onid yw hi'n ddoniol bod pobl yn meddwl y gallan nhw ddweud wrthych chi am beth i'w wneud?

Mae pethau llawer yn well nawr. Dwi'n mynd i foreau coffi dairgwaith yr wythnos, a nosweithiau ffilm bob nos Iau. Nid ffrindiau'n unig sydd gennyf fi ond ffrind gorau. Dwi'n mynd i'w fflat bob wythnos am joch o chwisgi. Pryd dwi'n mynd i'r ysbyty mae'r gofalwyr dal yn dod i fwydo Cassie. Mae un ohonon nhw hyd yn oed yn chwarae gyda hi fel nad yw hi'n diflasu. Mae hyn yn meddwl y gallwn i wella heb boeni.

Dwi hyd yn oed yn rhan o'r pwyllgor yn y ganolfan. Mae fy nghefndir o fod yn ymgynghorydd lleol yn meddwl fy mod i'n nabod yr ardal yn dda iawn, ac dwi'n dda o ran trefnu pethau. Dwi wedi cael fy llais nôl, ac mae'n deimlad da.

View transcript

When I was younger I trained at Llandough Hospital to be a nurse but I left to have children. I went back there for 13 years or so as an auxiliary working nights cause that way I was there for the kids in the day.

00.31 I've done 20 odd years I worked with different charities but all around mental health, I've been a trustee and Vice Chair and Chair of a couple, and I absolutely loved it. And then about five six years ago, I mean I was walking with a stick by then anyway, but about five six years ago, seven, suddenly everything just crashed and I couldn't…partly my back, I couldn't stand up.

01.00 And it was catastrophic. I was in Llandough for roughly two months and most of the time sort of on the bed, on bed rest, and as the ulcers healed so my foot twisted. So

it wouldn’t go on the floor at all. It was, it started to get for me almost a game, because the doctors tried very, very hard to discharge me, they kept telling me medically I was fit “You can go home” but I think I’d become one of those social cases where the doctors would say “Go home” and the nurses would say “No she can't til she’s got a package of care.”

01.46 I accept now I couldn’t manage without my package of care. There’s a lot I cannot do for myself but it was horrendous. I didn’t feel as though I was in control of my home anymore, I didn’t feel as though I was in control of me.

02.02 A couple of I went on to what they call Your Choice and it does give me a lot more control. I seem to go in phases say for hospital appointments and I can go to two or three a week for a couple of months, and whereas before I just had to cancel all the meal breaks that it covered well now I can bank them so they’re allocated to me in a separate area and I can take them back and use them for whatever I want which is a huge difference from the actual package of care.

02.38 Before Your Choice was introduced to me if I didn’t use that time which could have been I had a hospital appointment or whatever, those hours were lost.

02.51 I used to be involved with five or six charities all around mental health and because of my health I’ve had to give most of them up. I’m still involved with two. One of them is an Advocacy service, which is really, really brilliant. And when I go to a meeting it used to be I’d have to say cancel lunch and tea calls and I just lose the time and for years I’ve just lots the time. But now I bank those times so my lunch and tea call will give me an hour back which yes, you’re in discussion with the office about when they can send somebody out, but I enjoy doing the meetings but it also means I’m gaining in terms of getting stuff done here that I want.

03.45 I want to get a lot of my crafting stuff down because I want to start doing crafting again but literally this room has been full because everything I’ve needed for the past six years has been in this one room. And what I’m doing with the banked hours under Your Choice, people come in and they’ll help me pack stuff up, they’ll take it upstairs and bring down what I want down here.

04.10 And one of my carers she helped – she’s the one that helps with the showers in the week, she does my shopping call, and she thinks it's great. She enjoys doing it, and so do the others that have been here. They say they can see a difference in me and they want to get something down that I’m going to do and enjoy doing rather than just –

basically I watch telly 20 hours a day.

04.43 And so yes, I've been to Barry Island on a train this summer, and actually got off the train, had a bag of chips and came back again.

04.54 But what – the one thing that – it's been me holding back a bit because Tory the carer's more than happy to do it, I want to try getting on a bus. Now I know the busses take wheelchairs, but my wheelchair like me is slightly bigger than the norm, and the thought of trying to get it onto a bus is scary.

05.20 But before the winter sets in we're going to do that. And yes, I mean if I can manage to accrue the banked hours again and maybe tag it onto the two hours social call, which is what I call it, I don't know what it's supposed to be called, then maybe we will go somewhere on the bus because that's what – that's my next big hurdle, is trying a bus.

05.44 And since I'm getting the extra time with a carer that is – I don't like the word 'dictating' but in a sense that's what I'm doing, I'm saying "This is what I want, this is what will make a difference to my life and my existence."

06.01 And it's happening. So I suppose I am feeling – I'm feeling more confident I think, or better about myself when I'm actually – when the carer's here.

06.16 When the carer isn't here if I'm having a bad day I'll go back into the 'can't do anything for myself' but that's wrong because I do get a lot of support now, and this Your Choice has been really amazing for that.

View transcript

00:00

I used to look after a customer who

00:02

lived in the tor vine area she was quite

00:05

a poorly lady she suffered with COPD

00:09

which are quite bad she her husband was

00:11

also quite an ill gentleman and she had

00:14

family but they were full-time and her

00:16

daughter were two women they come home

00:18

on a Friday and it was around the

00:21

Christmas sort of time when she was

00:23

wanted me to take her out into the

00:26

community to do some Christmas shopping

00:27

she hadn't been out for a long long time

00:29

and she wants to go and buy her

00:32

grandchildren Christmas presents but

00:35

they it had to be for me personally so I

00:38

arranged for her mobility scooter to be

00:41

put on charge and made sure it was all

00:43

up and running and because she was on

00:45

oxygen 24/7 how to arrange for somebody

00:47

to bring a small canister of oxygen so

00:51

that we were able to take it out with

00:52

her while she was out in the community

00:54

so I picked her up of any evening and we

00:57

went to come brown shopping with all the

01:00

Christmas lights and she done lots of

01:02

shopping for her grandchildren they were

01:03

you know 16 17 but it was irrelevant to

01:06

her it was the fact that she was able to

01:08

get out and do and buy personal items

01:11

for those children and we don't quite a

01:14

bit of shopping we had a whale of a time

01:16

it was really emotional but it was fun

01:18

as well went to Starbucks that she does

01:20

something where she's never been before

01:22

I had coffee and we had cake just

01:25

general chitchat about anything and

01:27

everything and it was it was just a Me's

01:30

and it was lovely to see her have a

01:32

smile on her face which is not very

01:34

often but it was very emotional for me

01:37

as well it was lovely to see and think

01:39

that I've given somebody a wish that

01:42

they wanted to do but you know that they

01:44

couldn't achieve that without some sort

01:46

of help

01:48

she sadly passed away a couple of months

01:50

after that so I think for me and it was

01:55

something that I will always look back

01:57

on every time I Drive past her home I

01:59

think about it is very fresh in my mind

02:02

although it was several years ago and it

02:05

has been sadly passed away but I think

02:07

for her she probably knew it was her

02:09

last Christmas and it was something that

02:11

she act to achieve to be able again

> 02:13
>
> and about in the community so yeah
>
> 02:16
>
> beautiful
>
> 02:17
>
> - lovely lady
>
> 02:26
>
> you

Defnyddio dull sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau â gofalwyr

Ceir o leiaf 370,000 o ofalwyr yng Nghymru. Yng Nghymru y mae’r gyfran uchaf (12%) o ofalwyr i'w cael o blith gwledydd y Deyrnas Unedig, ac mae llawer ohonynt yn darparu dros 50 awr o ofal yr wythnos. Dywed Cyfrifiad 2011 wrthym fod dros 30,000 o ofalwyr dan 25 i'w cael yng Nghymru, a bod 7,500 o'r rhain dan 16.

Yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae gan bob gofalwr sydd angen cymorth ei hunain hawl i gael asesiad. Rhaid i'r asesiad ystyried y canlyniadau y mae’r gofalwr eisiau eu cyflawni, a dyna pam mae angen i chi gael sgwrs am ‘yr hyn sy’n bwysig’ ar ddechrau eich cysylltiad â nhw.

Adnoddau Asesu Anghenion Cymorth Gofalwyr

Rydym wedi datblygu pecyn cymorth o bedwar adnodd i helpu ymarferwyr i asesu anghenion cymorth gofalwyr. Bydd yr adnoddau’n helpu ymarferwyr i wneud asesiadau o ansawdd o ofalwyr a byddant yn arwain ymarferwyr wrth weithio â gofalwyr a theuluoedd er

mwyn canfod beth sydd wir yn bwysig iddyn nhw ac i'w galluogi i gyflawni eu canlyniadau.

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys:

- llawlyfr hyfforddiant sy'n rhoi gwybodaeth ac arweiniad i hyfforddwyr sy'n cynnal sesiynau ffurfiol i ymarferwyr
- pecyn o sleidiau sy'n helpu hyfforddwyr i ddatblygu sesiynau hyfforddiant
- llawlyfr myfyriol i ymarferwyr nad ydynt wedi cael sesiwn hyfforddiant ffurfiol
- pecyn cymorth i ymarferwyr sy'n dwyn ynghyd nifer o offer ymarfer mewn un lle.

Er sylw: Os na allwch weld cyflwyniadau PowerPoint yn Internet Explorer, ceisiwch 'arbed' y ddogfen i'ch bwrdd gwaith i'w gweld.

> Asesu Anghenion Cymorth Gofalwyr - Adnodd A – Llawlyfr Hyfforddwyr
>
> DOCX 964KB

> Asesu Anghenion Cymorth Gofalwyr - Adnodd B – Sleidiau Hyfforddi
>
> PPTX 1MB

> Asesu Anghenion Cymorth Gofalwyr - Adnodd C – Llyfr Gwaith Hunan Hyfforddi Ymarferwyr
>
> DOCX 573KB

> Asesu Anghenion Cymorth Gofalwyr - Adnodd D – Pecyn Cymorth Ymarferwyr
>
> DOCX 298KB

Cysylltu â ni

Os oes gennych gwestiwn neu os na allwch ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn edrych amdano, cysylltwch â ni.